**Sylwadau ar**
**Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2031**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Cyswllt: Elin Maher / Ceri McEvoy**
**RhAG**
**Tŷ Cymru**
**Greenwood Close**
**Parc Busnes Porth Caerdydd**
**Caerdydd**
**C23 8RD**

**Tachwedd 2021**

Mudiad yw Rhieni dros Addysg Gymraeg sy'n cynrychioli rhieni sydd â phlant mewn ysgolion Cymraeg.

Nod RhAG fel mudiad yw cefnogi datblygiad addysg Gymraeg ledled Cymru.

Mae RhAG yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu'r sylwadau hyn fel rhan o'r broses o lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 – 2031, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Sylwadau ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf**

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | • Yn gyffredinol rydym yn croesawu'r datganiad gweledigaeth. Mae sicrhau ansawdd rhagorol mewn ysgolion i bob dysgwr trwy'r Saesneg a'r Gymraeg yn ganmoladwy ac mae hyn ar gael yn ffactor pwysig.<br>• Yr hyn nad ydym yn ei weld yn y weledigaeth yw'r targedau llinell uchaf ar sut i gyflawni'r weledigaeth hon – mae'r diffyg targedau'n gwneud y sylwebaeth yn llai ystyrlon.<br>• Byddai'n werthfawr gweld sut y bydd y cynnydd o rhwng 720 a 825 o ddysgwyr ym mlwyddyn un mewn addysg gyfrwng Gymraeg yn cael ei gyflawni'n fras ar hyd y 10 mlynedd.<br>• Cwestiwn sydd gennym yw pam nad yw Rhondda Cynon Taf am osod y targed uchaf i'w gyrraedd? Os ydym am gyflawni miliwn o siaradwyr beth am anelu at y ganran uchaf o'r ystod darged? Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir eu disgwyliad bod siroedd yn anelu i ragori ar y targedau lle bo hynny'n bosibl.<br>• Mae'r weledigaeth yn nodi bod llawer o leoedd dros ben o fewn addysg gyfrwng Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Lle mae'r dadansoddiad o hyn? Oes rhesymau amlwg am hyn? Pa fesurau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd er mwyn hyrwyddo addysg Gymraeg yn ardaloedd yr ysgolion hyn? Mae'n hanfodol gyda'r cynllun newydd hwn ar waith bod hyrwyddo meicro yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â'r lleoedd dros ben hyn.<br>• Rydym yn gwerthfawrogi bod yna lawer o strategaethau a pholisïau a chynllun datblygu lleol sy'n sail i'r ddogfen hon. Byddai'n werthfawr pe bai modd cynnwys ac enwi'r strategaethau hyn yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau tryloywder a darparu cyd-destun clir ar gyfer monitro a chynllunio yn y dyfodol. Mae'n hanfodol cadarnhau statws y Cynllun hwn fel dogfen strategol trosfwaol, sy'n pontio sawl maes, ac sy'n rhan greiddiol o wasanaeth corfforaethol y Cyngor.<br>• Ymhellach at hynny, mae angen cyd-berthynas llawer agosach rhwng y CSGAau, Safon Iaith 145 a'r Strategaeth iaith: miliwn o siaradwyr. Mae angen gosod targedau penodol ar gyfer tyfu niferoedd siaradwyr iaith: mae'n amlwg mai'r sector addysg yw'r prif beiriant ar gyfer cynhyrchu siaradwyr yr iaith. h.y. ardaloedd poblog gyda'r dwysedd lleiaf o siaradwyr Cymraeg fydd yn gorfod cyfrannu fwyaf at gyrraedd y targed. Byddem yn annog croesgyfeirio cliriach rhwng y Cynllun hwn a Strategaeth Iaith Pum Mlynedd RhCT.<br>• O ran y Fforwm Addysg Gymraeg, byddai RhAG yn argymell bod pob clwstwr yn cael ei gynrychioli. |

| | |
|---|---|
| **Deilliant 1** | • Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech i gynnwys llawer o wybodaeth a naratif am y sefyllfa bresennol o fewn y deilliant hwn.<br>• Yn anffodus mae'r naratif yn rhy hir ac yn rhy eiriog ac nid oes digon o fanylion am brosiectau gwirioneddol a mapio daearyddol o'r ddarpariaeth bresennol er mwyn gosod gwaelodlin i'r cynllun.<br>• Byddem yn disgwyl ymarferiad mapio manwl o ddarpariaeth ledled y sir, gan nodi'r ddarpariaeth bresennol a nodi bylchau. Y cam nesaf wedyn fyddai mapio sut y bydd y bylchau hyn yn cael eu llenwi.<br>• Mae data sir gyfan yn cuddio diffygion mewn darpariaethau lleol ac mae angen i'r Sir fod yn llawer yn fwy tryloyw gyda hyn os am wir gynllunio ar gyfer cyrraedd pob ardal a phob teulu gyda dewis cytbwys.<br>• Ar hyn o bryd nid yw'n glir beth yw'r ddarpariaeth cyn-ysgol Cymraeg a pha mor agos yw i deuluoedd pob ardal o'r Sir.<br>• Mae'r cysyniad o gymunedau 15 munud yn prysur ddod yn ffordd effeithiol o gynllunio gwasanaethau lleol. Dylai'r dull hwn gael ei gymhwyso i ddeilliant un er mwyn sicrhau bod darpariaeth cyn-ysgol digonol ar gael trwy gyfrwng Cymraeg ac yn agos at deuluoedd ym mhob cymuned ledled y sir.<br>• Mae angen hefyd sicrhau bod cludiant cyhoeddus ar gael yn hawdd ar gyfer ardaloedd sydd y tu hwnt i bellter hawdd i gerdded ar gyfer y darpariaethau hyn.<br>• Mae angen i ni weld cynlluniau pendant i gysylltu iechyd ag ymweliadau cyn-ysgol. Nid yw nodi y **gellid** ei gynnwys yn ddigon. Dylai fod cynlluniau pendant wedi'u hamlinellu yn y deilliant hwn i hyrwyddo addysg Gymraeg fel rhan o'r Gwasanaeth Lles a Chydnerthedd a lansiwyd ym mis Hydref 2020.<br>• Er mwyn gwireddu nod Llywodraeth Lafur Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg, rhaid bod yn uchelgeisiol ac yn rhagweithiol. Nodir y bydd ymgyrchoedd a dulliau marchnata gwell. Beth fydd yr ymgyrchoedd a'r dulliau hyn a pham nad ydynt yn cael eu gweithredu nawr? Mae diffyg manylder o ran sut mae'r Cyngor am gyrraedd rhieni newydd a marchnata addysg Gymraeg.<br>• Mae'n briodol nodi mai RhCT oedd un o'r siroedd cyntaf i baratoi a chyhoeddi llyfryn hyrwyddo addysg Gymraeg, sef taflen 'Bod yn ddwyieithog'. Mae pob sir wedi cyhoeddi llyfryn tebyg ers hynny.<br>• Mae angen i'r Cynllun hwn amlinellu ffyrdd blaengar o adeiladu ar lwyddiant y daflen honno, trwy ddatblygu brand a phresenoldeb addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd, e.e. trwy gyfrwng fideos, dyluniadau a graffeg, presenoldeb ar-lein ac ar y lllwyfanau cyfryngau cymdeithasol, fel rhan o ymgyrch gydlynus sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaeth ac sy'n amlygu llwybr clir o'r Blynyddoedd Cynnar i ddarpariaeth Addysg Bellach o fewn ffiniau'r sir.<br>• Mae angen i bob sir berchnogi 'stori addysg Gymraeg' eu hardal leol hwy, ac i gyfleu hynny trwy brofiadau eu disgyblion a'u teuluoedd, er mwyn trosglwyddo'r neges i'r to nesaf o deuluoedd sy'n gwneud penderfyniadau am addysg eu plant. Mae angen dybryd am ymgyrch genedlaethol, wedi ei harwain gan Lywodraeth Cymru, ond fel rhan o'r ymdrech honno, mae'r gwaith a wneir ar lawr gwlad wrth gyflwyno a chyfleu'r negeseuon hyn, yr un mor bwysig. Nodwn bod gwefan newydd Teuluoedd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar fin cael ei lansio, beth yw'r posibiliadau yma tybed?<br>• Yr unig darged a welwn o fewn y deilliant hwn yw cynnydd o 65% yn nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae targed Llywodraeth Cymru'n nodi rhifau sydd yn |

| | |
|---|---|
| | mynychu fel targed nid llefydd. Sut a lle fydd y 65% hwn yn digwydd felly? Mae angen bod yn fwy penodol.<br>• Noda'r deilliant hwn "Nod y Cyngor yw darparu o leiaf 25% o holl leoedd gofal plant Rhaglen Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg." Lle mae'r darpariaethau hyn am fod?<br>• Ymhellach at hynny, nodwn y byddai'r targed o 25% yn syrthio'n brin o ragamcaniadau twf oes y Cynllun hwn ar gyfer Deilliant 1 a 2. Mae angen i'r targed ar gyfer cynyddu lleoedd gofal cyfrwng Cymraeg Rhaglen Dechrau'n Deg gydredeg â'r targed twf ar gyfer Deilliant 1 a 2. Yn wir, byddem yn pwyso ar y Sir i gymryd camau pendant er mwyn symud at sefyllfa lle mae 50% o'r ddarpariaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, gan mai dyma fyddai'n cynnig cyfleoedd cyfartal gwirioneddol i deuluoedd ledled y sir.<br>• Ar hyn o bryd, nodwn bod y cyfrifoldeb ar y rhiant/gwarcheidwad i ofyn am le gofal plant cyfrwng Cymraeg ar Raglen Dechrau'n Deg. Byddem yn pwyso'n gryf am newid polisi sylfaenol yma, gyda symudiad tuag at gynnig rhagweithiol gan y Sir ynghylch cyfrwng iaith y ddarpariaeth wrth i rieni wneud ymholiadau.<br>• Nodwn ymhellach fod rhieni/gwarcheidwaid yn aml yn gwrthod y cynnig gofal plant oherwydd bod lleoliad gofal plant cyfrwng Saesneg yn agosach at eu cartref. Mae'r ardal felly – yn hytrach na'u dewis iaith wreiddiol – yn llywio'u penderfyniad. Dyma'n syml iawn grynhoi a thanlinellu pwysigrwydd sylfaenol yr angen i agor darpariaethau gofal plant / Blynyddoedd Cynnar - ac ysgolion Cymraeg – mewn cymunedau newydd. Nid yw helaethu ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol o reidrwydd yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n parhau i wneud addysg Gymraeg yn ddewis amhosibl i gynifer o deuluoedd. Rhaid i'r Cynllun hwn gydnabod ac ymateb i'r her honno mewn modd ystyrlon.<br>• Lle mae'r wybodaeth am feysydd gweithredu posibl yr Asesiad Dichonolrwydd Gofal Plant newydd? Mae'r deilliant ond yn nodi sylwadau megis "nifer o gryfderau a gwendidau" neu "cyflawniad cynnydd swyddogol". Ond lle mae'r wybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg yn benodol? Mae angen bod yn yn fwy penodol a ffocysu ar wella'r ddarpariaeth Gymraeg.<br>• Mae gosodiadau am "Bydd y Cyngor" ond dim digon o wybodaeth am "sut y bydd hyn yn digwydd.<br>• Mae rhaid newid ieithwedd y ddogfen i fod yn fwy cadarn a phendant: Byddwn yn… erbyn… Dyma sut y byddwn yn gwneud hyn… gyda chyllid o… mewn parteriaeth â…<br>• Sut y mae Tabl tudalen 14 wedi ei amcangyfrif? |
| **Deilliant 2** | • Mae llawer o ailadrodd y weledigaeth yn y deilliant hwn. Dylai'r deilliant fod yn ymestyn ar y sylwadau'r weledigaeth yn hytrach na'u hailadrodd.<br>• Mae angen cynnwys yr ymarfer mapio lleoedd dros ben (tud 17) yn y ddogfen hon er mwyn cael eglurder a gwaelodlin i'r cynllun.<br>• Nod y Cyngor yw sicrhau bod 720 o ddysgwyr yn derbyn addysg Gymraeg ym mlwyddyn 1 erbyn y flwyddyn 2032, sy'n gynnydd o ryw 10% o'r sefyllfa bresennol. Yr hyn sy'n siomedig iawn yw nad oes sôn o gwbl am agor ysgolion newydd. Lle bo ysgolion newydd yn cael eu sefydlu, maen nhw'n denu. Mae'n dda ychwanegu capasiti at ysgolion presennol ond mae angen ysbryd cenhadol a mentergarwch i gyrraedd y nod o 720 o ddysgwyr, a mwy. |

| | |
|---|---|
| | • Nodir 5 prosiect ar dudalen 17 sydd yn mynd i gyfrannu at gynnydd y niferoedd. Byddai cael taflwybr yn dangos cyfraniad pob cynllun ac ar draws oes y cynllun hwn yn ddefnyddiol i weld yn union sut a phryd bydd y cynnydd hwn yn digwydd.<br>• Eto, nid oes dadansoddiad daearyddol o ddarpariaeth bresennol wedi ei gynnwys i sicrhau bod **pob** ardal o'r Sir o fewn pellter rhesymol i addysg Gymraeg. Mae angen gweld hwn yn y ddogfen o'r cychwyn.<br>• Mae'r ddogfen hon yn ddogfen gyhoeddus a fydd yn gosod stondin Rhondda Cynon Taf ar gyfer cryfhau ac ymestyn Addysg Gymraeg dros y ddegawd nesaf. Mae'n ddogfen bwysig a fydd yn gyfrifol am arwain y datblygiad. Mae'n hanfodol ei bod yn gynhwysfawr, yn dryloyw ac yn uchelgeisiol ar gyfer pob teulu ar draws y Sir. Y deilliant hwn yw angor y cynllun cyfan. Ar hyn o bryd does dim digon o bwysigrwydd wedi ei rhoi i'r deilliant hwn. Does dim digon o fanylion ar **SUT** a **LLE** y bydd y datblygiadau hyn yn digwydd.<br>• Mae'n dda gweld bod cynlluniau trochi ar gyfer cynnig ail bwynt mynediad i addysg Gymraeg, ond mae'r wybodaeth yn annelwig iawn. Rhaid wrth gynlluniau cadarn a rhaglen farchnata.<br>• Mae diffyg unrhyw gyfeirio yn y Cynllun hwn at Gynllun Datblygu Lleol RhCT. Roedd Cynllun Datblygu Lleol RhCT yn cynnig adeiladu 14,385 o gartrefi rhwng 2006 a 2021, sef tua 959 ar gyfartaledd bob blwyddyn. Beth yw'r diweddaraf ar y cynnydd a gafwyd mewn perthynas â hyn? Beth fydd cynnwys y CDLl diwygiedig ar gyfer y cyfnod nesaf? Yn sgil hynny, mae'n allweddol bod croesgyfeirio clir ac eglur rhwng y CSGA a'r CDLl, er mwyn dangos pa waith sydd wedi'i gynnal i asesu digonolrwydd lleoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hynny gan ddefnyddio tystiolaeth ddiweddar o safleoedd tai arfaethedig yn ogystal â chyfrifoldebau'r sir mewn perthynas ag ysgogi'r galw am addysg Gymraeg.<br>• Yn hanesyddol mae Canllawiau Cynllunio Atodol RhCT wedi seilio'r fformiwla ar 80% o ddisgyblion newydd yn mynd i addysg Saesneg ac 20% i addysg Gymraeg. Galwn ar y Cyngor i beidio dilyn eu strategaeth flaenorol sy'n seiliedig ar batrymau galw'r gorffennol, sef bod 20% o alw am Addysg Gymraeg, gan fod hyn yn is na thargedau'r awdurdod a'r Llywodraeth. Mae angen symud i ffwrdd o'r feddylfryd hon a gweithredu mewn modd sy'n llawer mwy rhagweithiol. Rhaid osgoi'r tueddiad hanesyddol o gael rhagdybiaeth mai ysgolion cyfrwng Saesneg fydd unrhyw ysgolion newydd.<br>• Rydym o'r farn y dylid mabwysiadu polisi i "gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yn ddigonol mewn ardaloedd ble mae tai newydd yn cael eu codi", ymhlith y polisiau cyffredinol. |
| **Deilliant 3** | • Cytunir â'r dehongliad nad yw pontio yn destun pryder ac eithrio o gylchoedd meithrin i ysgolion Cymraeg, ac o CA4 i CA5. Cydnabyddir bod pellter teithio yn ffactor gyda'r pontio o gylchoedd meithrin i ysgolion Cymraeg. Byddai sefydlu ysgol arall yn helpu hyn. Mae rhywun yn meddwl yn benodol am ardal Gogledd Pontypridd lle mae cynlluniau diweddaraf y sir yn nodi y bydd ysgol Saesneg newydd sbon yn yr ardal. Mae dybryd angen ysgol Gymraeg yn yr ardal bwysig hon. Croesewir y symudiad tuag at gyd-leoli cylchoedd/unedau meithrin ac ysgolion cynradd a fydd yn gam pwysig tuag at unioni'r sefyllfa hon, wrth ddarparu llwybrau dilyniant clir. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r cyfraddau trosglwyddo o'r Cylchoedd Meithrin yn dangos cyfradd isel iawn mewn i ysgolion cynradd Cymraeg. Mae'n galonogol gweld bod cynnydd o 10.6% yn 2019/2020. Yr hyn sy'n aneglur yw pam y digwyddodd hyn. Mae angen mwy o ddadansoddiad i sicrhau bod targed yn cael ei osod yn flynyddol a bod camau gweithredu pendant yn cael eu hychwanegu er mwyn cyflawni canran uwch fel bod cyfraddau trosglwyddo i mewn i addysg gynradd Gymraeg yn sail i'r targed gofynnol yn neilliant 2.<br>• Mae'n dda gweld bod cyfraddau trosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol o fewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn gyson uchel. Oes modd ymestyn ar hyn gan nodi patrymau a systemau pontio y clysytyrau ysgolion?<br>• Serch hynny mae angen dadansoddi a datrys her addysg ôl-16 gan fod y data hwn yn sylweddol is.<br>• Ar dudalen 19 mae'n nodi bod yr awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol cyfagos er mwyn cyflawni'r 720 o ddysgwyr ym mlwyddyn un mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032. Byddai mwy o fanylion am yr hyn y mae'r gwaith hwn yn ei olygu a pha effaith y bydd hyn yn ei gael ar y niferoedd presennol o fewn yr ysgolion ar y ffin yn ddefnyddiol yma. Faint o ddisgyblion er enghraifft sy'n teithio dros ffiniau sirol? Pam mae hyn yn digwydd? Byddai dadansoddiad pellach o gymorth wrth i ni ddeall yn well yr her y gallai ysgolion hyn eu hwynebu os ydynt yn agos at ffin ag awdurdod lleol arall.<br>• Nid ydym yn derbyn nad yw'n bosibl cael brasamcan o'r niferoedd sy'n gadael grwpiau chwarae meithrin. Mae Mudiad Meithrin yn darparu data blynyddol i awdurdodau lleol. Byddem yn awgrymu y dylid creu system newydd er mwyn rhagweld yn fras lle mae'r dysgwyr cynnar, pa brosesau sydd ar waith er mwyn hyrwyddo addysg gyfrwng Cymraeg ar gyfer y dysgwyr cynnar hynny a sut mae'r broses hyrwyddo honno wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau trosglwyddo i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg cynradd.<br>• Rydym yn cytuno â'r sylwadau ar dudalen 20 bod yna amryw resymau pam nad yw disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion cynradd cyfrwng Cymru o gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg. Yr hyn sydd ar goll o'r deilliant hwn yw sut yr eir i'r afael â hyn. Beth yw'r cynlluniau ar gyfer sicrhau bod mwy o blant yn trosglwyddo o'r blynyddoedd cynnar i addysg gynradd Gymraeg? Beth yw'r prosiectau a fydd yn sicrhau darpariaeth gyfartal ar draws pob ardal o'r sir? Os na allwn eu gweld yn y ddogfen hon, sut ydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n digwydd? Mae angen manylion ar y math o weithredu bydd yn digwydd, y dull monitro a phwy fydd yn gyfrifol am y gwaith hwn.<br>• Da gweld cynlluniau'r sir ar gyfer gwelliannau sylweddol i ysgolion Cymraeg yn ei gyhoeddiad diweddaraf. Mae cyflwr yr adeilad yn Llanhari erbyn hyn mewn cyflwr gwael ac mae'r ddwy ysgol Saesneg y gallai'r plant fod yn mynd iddynt yn lle Llanhari yn adeiladau newydd. Da gweld cynlluniau hefyd ar gyfer Ysgol Cwm Rhondda. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cadw ysgol gynradd lewyrchus yng nghanol y Porth. |
| **Deilliant 4** | • Byddai dadansoddiad daearyddol o ddarpariaethau uwchradd y sir yn ddefnyddiol yma er mwyn gweld lle y mae'r niferoedd cynradd yn bwydo'n bresennol. Byddai gweld unrhyw fylchau wedyn yn medru cynorthwyo gyda chynllunio ymhellach ar gyfer cyfnod y cynllun hwn. |

| | |
|---|---|
| | • Mae’n dda clywed ar dudalen 23 bod camau gweithredu ar waith i ehangu lleoedd uwchradd ond byddai’n ddefnyddiol nodi’n union lle fydd y 187 lle newydd (tud26) yn Ysgol Gyfun Rhydywaun a sut fydd yn cael effaith ar y ddarpariaeth ac yn gwella sefyllfa’r Sir ar y cyfan ac yn ardal clwstr Rhydywaun.<br>• Nodwn fod CSGA Cyngor Bwrdeistref Merthyr yn ymrwymo i gynnal astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful o fewn 5 mlynedd cyntaf eu Cynllun. Mae hwn yn ymrwymiad arwyddocaol iawn, ac o’i weithredu, byddai ganddo oblygiadau pellgyrhaeddol ar niferoedd Ysgol Gyfun Rhydywaun. Mae angen cynnal deialog barhaus rhwng y ddwy sir wrth i’r gwaith hwn fynd rhagddo, er mwyn cynllunio a chymryd camau yn ddigon cynnar, i osgoi unrhyw ganlyniadau andwyol i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Cynon. e.e. ailedrych ar amserlenni cynigion ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghwm Cynon. Mae hyn hefyd yn cynnig cyfle i RhCT ystyried pa opsiynau eraill sydd ar gael i sefydlu ysgolion mewn ardaloedd daearyddol newydd yn y rhan hon o’r sir.<br>• Nodir hefyd bod llefydd gweigion mewn rhai ysgolion. Byddai dadansoddi pellach ar y resymau dros hyn yn ddefnyddiol er mwyn adnabod unrhyw gamau gweithredu pellach ar gyfer cyfnod y strategaeth hon.<br>• Mae angen adnabod yr heriau a’u gosod mewn targedau pendant yn y strategaeth hon. Does dim digon o fanylion penodol yma ar hyn o bryd i fod yn medru gosod gwaelodlin. Y mae’r naratif yn addawol ond nod yw’r sefyllfa bresennol yn ddigon clir.<br>• Does dim dadansoddiad o ystod pynciau na’r elfen addysg ôl 16. Lle fydd y ddarpariaeth Gymraeg? Pwy sydd yn arwain ar ehangder y ddarpariaeth? Pa sysytemau sydd yn eu lle i sichrau’r ddarpariaeth? Beth yw swyddogaeth y consortiwm addysg yn hyn?<br>• Mae’r tabl data ar ddiwedd y deillant yn anelwig.<br>• Gyda datblygiadau cyffrous ar y gweill ar gyfer addysg ôl-16 yn y sector Saesneg, mae’n bwysig iawn buddsoddi yn y sector Gymraeg hefyd fel bod cynnig yr un mor ddeniadol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe allai’r ymgais i hyrwyddo addysg Gymraeg gyfrannu at yr amcan hwn hefyd, wrth gwrs.<br>• Mae angen parhau i ddatblygu mwy o gydweithio rhwng ysgolion uwchradd y Sir er mwyn eu galluogi i gynnig yr ystod ehangaf o gyrsiau cyfrwng Cymraeg – gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol. Mae angen pwyslais penodol ar feysydd iechyd a gofal, gofal plant ayb<br>• Mae angen hefyd datblygu cyfleoedd i gydweithio gyda’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo llwybrau astudio yn y sector Addysg Uwch.<br>• Hefyd, credwn bod angen cefnogi disgyblion nad ydynt yn parhau yn y Chweched Dosbarth ac mae gweithio gyda Coleg y Cymoedd i adnabod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg – o bosib ar y cyd gyda’r ysgolion – yn faes angenrheidiol sydd angen sylw dybryd.<br>• Mae angen adnabod a hyrwyddo cyfleoedd yn y gweithle i fyfyrwyr ac mae potensial i greu adnodd penodol er mwyn cyflawni hynny, o bosib fel prosiect dilynol i’r daflen hyrwyddo addysg Gymraeg - Bod yn ddwyieithog. |

| | |
|---|---|
| | • Mae angen i'r Cyngor arwain ar y gwaith hwn, fel prif gyflogwr yr ardal, a chymryd rôl rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd i ymuno â'r gweithlu ar draws holl ystod gwasanaethau'r ALl. |
| **Deilliant 5** | • Y mae cyfle yn y deilliant hwn i ddangos ehangder y gwaith partneriaeth sydd yn cael ei nodi. Nid yw'n ddigon clir yn y ddogfen ymgynghorol sut bydd yr holl bartneriaid cymunedol yn gweithredu.<br>• Dylid gweld targedau pendant gan y partneriaid yn y deilliant hwn er mwyn dangos sut y byddant hwy hefyd yn darparu ar gyfer y twf yn y targed.<br>• I wireddu'r Cynllun mae angen i'r Sir ddangos yn glir sut y maent yn cyfrannu'n ariannol i gefnogi gwaith y partneriaid yn deilwng, ac i ystyried cyfleoedd i ehangu a helaethu'r gefnogaeth ariannol honno yng ngwyneb gofynion cynyddol y twf arfaethedig yn y sector cyfrwng Cymraeg, ynghyd â'r ehangu disgwyliedig o safbwynt ysgolion cyfrwng Saesneg yn gwella a chynyddu eu defnydd hwythau o'r Gymraeg hefyd.<br>• Rhaid gweithio i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith yr ysgol yn unig, a'i bod yn cael ei normaleiddio fel iaith gymunedol.<br>• Mae ariannu partneriaid i gefnogi'r gwaith hwnnw yn hanfodol.<br>Sut y mae llwyddiant y deilliant hwn am gael ei fesur? Nid yw hyn yn glir i ni chwaith. |
| **Deilliant 6** | • Yr ydym yn ymwybodol o waith ardderchog adran ADY Sir Rhondda Cynon Taf ar hyd y blynyddoedd a da yw gweld bod y Sir yn llwyr ymwybodol o'i cyfrifoldeb wrth i'r ddeddf newydd ddod i rym.<br>• Byddai'n dda gweld dadansoddiad o sut y bydd y £3.4 miliwn a nodir ar dudalen 33 yn cyfrannu at y sector Gymraeg.<br>• Nid oes digon o ddadansoddiad yn y deilliant hwn fel y mae i wybod beth yw'r ddarpariaeth bresennol ar draws y Sir er mwyn gosod gwaelodlin ar gyfer gweld gwelliant a chynnydd yn y ddarpariaeth. Byddwn wedi disgwyl dadansoddiad ystadegol o niferoedd y disgyblion sydd yn derbyn cymorth presennol, ystod yr arbenigedd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd ac yna sut y bydd y sir yn cau unrhyw fylchau. A fydd cydweithio traws sirol yn digwydd? A oes cyfle i ddatblygu canolfannau arbenigedd ar draws y Sir a rhannu'r arbenigeddau hyn ymhellach? Beth am y cyfleoedd hyfforddiant proffesiynol? Pwy fydd yn darparu, ar gyfer pwy a phryd?<br>• Beth yw'r cymorth i rieni yn y cynllun hwn? Sut y mae'r Sir yn sefydlu'r berthynas gyda rhieni ac yn eu cefnogi hwy yn enwedig os nad yw'r dysgwyr yn dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg?<br>• Mae angen parhau i weithio'n agos gyda rhieni ac ysgolion er mwyn cael darlun llawn o'r sefyllfa sirol ac i ymateb yn briodol i'r anghenion hynny.<br>• Mae gan RhCT gapasiti mewn sawl maes nad oes gan siroedd cyfagos. Rydym yn awyddus i annog y Sir i rannu arfer dda ac arbenigedd yn draws-sirol lle pryd bynnag y bo modd. |
| **Deilliant 7** | • Yma, prin yw'r dadasoddiad o'r gweithlu presennol o fewn y sector Gymraeg er mwyn gosod gwaelodlin. Yn wir, y mae yna gyfle yn y deilliant hwn i adnabod pwy yw'r "staff addysgu". |

| | |
|---|---|
| | • Ar yr olwg gyntaf efallai y byddai nodi'r rhai sydd yn gweithio fel athrawon a phenaethiaid yn ddigon, ond fel mudiad, rydym yn argyhoeddedig bod rhaid i Awdurdodau lleol ystyried yr ystod cyfan o weithlu sydd yn cefnogi addysg – yn cynnwys y staff gweinyddol o fewn yr ysgolion, swyddogion cefnogi o fewn yr awdurdod lleol a'r consortiwm addysg yn ogystal â'r cynorthwyyddion. Gwyddwn ond yn rhy dda pa mor bwysig y mae i gael yr ystod cyfan o weithlu i gefnogi cynllun o bwysigrwydd fel y cynllun hwn.<br>• Disgwyliwn felly ddadansoddiad manwl o sgiliau Cymraeg holl weithlu Addysg y Sir gan eu bod i gyd, mewn un ffordd neu'r llall yn gyfrifol am y Gymraeg o fewn eu gwaith.<br>• Pwysig hefyd fydd nodi faint o staff ychwanegol bydd angen ar gyfer y niferoedd uwch ac ysgolion newydd a fydd yn agor ym mywyd y cynllun hwn a sut fydd y sir yn mynd ati i hyrwyddo'r swyddi hyn a chefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg.<br>• Mae angen datblygu cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg i athrawon, a chynnig cyrsiau gloywi dwys i athrawon sy'n fodlon trosi i addysg Gymraeg, eto trwy gynlluniau rhyddhau o'r gwaith a thrwy ddatblygu'r Cynllun Sabothol. Mae sicrhau cyflenwad o benaethiaid ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth bwysig. Mae angen hefyd i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith disgyblion sy'n dewis gyrfaoedd.<br>• Oes modd datblygu trafodaethau rhwng yr ysgolion, yr Undebau Athrawon a'r consortia i ymchwilio i'r posibiliadau ar lefel lleol?<br>• Mae angen cydnabod hefyd nad oes modd i'r Awdurdod lleol fod yn gyfrifol am holl gynnwys y targed hwn chwaith a bod ymateb i fylchau a heriau recriwtio hefyd yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru yn ogystal â llywodraeth leol. Dylid sicrhau bod yna fecanwaith ffurfiol i goladu gwybodaeth ar yr heriau hyn a modd systematig i'w cyfathrebu'n effeithiol a chyflym yn ôl i Adran Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn iddo fwydo strategaeth y gweithlu cenedlaethol. |

Yn gyffredinol, nodwn y byddai'n syniad nodi targedau llawer mwy penodol ar y pwynt 5 mlynedd a 10 mlynedd er mwyn cael cerrig milltir mwy pendant a chlir. Ar hyn o bryd y mae'r targedau'n rhy amwys.

Cytunwn y byddai cael Strategaeth hyrwyddo i gyd-fynd gyda'r cynllun hwn, gan adnabod agweddau i'w gweithredu'n flynyddol ar gyfer y 7 deilliant, yn fodd i gadw trac ar yr hyn sydd angen ei wneud o ran symbylu a sbarduno twf. Gellid defnyddio cynllun ar ffurf cofnod goleuadau traffig (RAG Rating) wrth i gyfarfodydd a gweithgareddau fynd yn eu blaen ar draws y flwyddyn ac wrth i'r Fforwm Addysg Gymraeg gwrdd i drafod y cynnydd. Gellid sefydlu is- grŵp hyrwyddo penodol i fynd i'r afael â'r agwedd hwn gan wahodd parteriaid i gyfrannu a gweithredu yn ôl blaenoriaethau'r cynllun.

Dylai'r ymarferion mapio wedi digwydd i fod yn sail i'r cynllun hwn ac felly edrychwn ymlaen at weld y manylion hyn yn y cynllun diwygiedig a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth ddiwedd Ionawr 2022.

Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â swyddogion i ymhelaethu ar ein sylwadau